Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Waunfawr
# Y Ganolfan
# Waunfawr
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 4YY

**Dyddiad yr arolygiad: 21 Tachwedd 2011**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Waunfawr yn y Ganolfan Gymunedol yng nghanol pentref Waunfawr yng Ngwynedd. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardal gyfagos.

Mae'r Cylch wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, oherwydd problemau amrywiol, daeth y cofrestriad i ben am gyfnod, hyd nes yr ail-gofrestrwyd y Cylch ym mis Mai 2009. Ers hynny, mae'r Cylch wedi wynebu nifer o anawsterau. Mae'r Pwyllgor Rheoli, yr Awdurdod Addysg, y Mudiad Meithrin ac yn ddiweddarach yr arweinydd wedi cydweithio i'w gynnal.

Mae'r Cylch yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed. Gellir cynnig lle i ddeunaw o blant. Cymraeg yw iaith cartref y rhan fwyaf o'r plant.

Mae'r Cylch ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Cynhelir dwy sesiwn wahanol pob dydd: un rhwng 08:55 ac 11.00 a chlwb cinio ('Meithrin Mwy') o 11.00 tan 1.05.

Yn ystod yr arolygiad yr oedd deg plentyn ar y gofrestr; mae saith ohonynt yn mynychu'r clwb cinio.

Mae'r ddau ymarferydd llawn amser yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg, iechyd a gofal plant bach. Mae'r lleoliad yng ngofal prif ymarferydd. Mae un ymarferydd dros dro wedi cychwyn yn ei swydd ym Medi 2011.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal am Wasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2010. Dyma'r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad y cylch yn dda oherwydd:**

- mae’r holl blant yn gwneud cynnydd da o’u man cychwyn;
- maent oll yn hapus i ymuno mewn gweithgareddau;
- mae medrau cyfathrebu'r holl blant yn datblygu’n dda yn ôl eu hoed a’u gallu;
- mae’r holl blant yn ymateb yn dda i’r berthynas gynhaliol sydd yn bodoli rhyngddynt a’r ymarferwyr ac i’r disgwyliad iddynt ymddwyn yn gyfrifol;
- mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda.
- mae’r amgylchedd dysgu yn gynhwysol a chartrefol;
- mae’r ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd addas ar gyfer gweithgareddau awyr agored ar ac oddi ar y safle.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella’r cylch yn dda oherwydd:**

- mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i’r holl blant i wneud cynnydd yn eu dysgu a’u datblygiad personol, cymdeithasol a chorfforol;
- mae’r ymarferwyr yn ymroddedig yn eu gofal o’r plant ac yn ymateb yn ddiymdroi ac effeithiol i gyngor;
- mae ansawdd y ddarpariaeth wedi datblygu’n sylweddol mewn amser byr;
- mae’r rhieni a’r Pwyllgor Rheoli yn cynnig cefnogaeth gadarn i’r Cylch;
- mae natur ac effaith y bartneriaeth gyda’r awdurdod addysg lleol a’r Mudiad Meithrin yn rhagorol.

## Argymhellion

**Er mwyn gwella mae angen i'r Cylch:**

A1 roddi sylw mwy bwriadus i hybu datblygiad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant.

A2 sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau sydd wedi'u dewis gan y plentyn a'r rhai sydd wedi'u cyfeirio gan yr ymarferwyr;

A3 greu darlun cyflawn o gynnydd plant;

A4 ffurfioli prosesau rheoli perfformiad ymarferwyr, a manteisio'n ar gyfleoedd i gyd-weithio â lleoliadau eraill i rannu arfer dda;

A5 gryfhau'r bartneriaeth gyda'r ysgol gynradd leol i hwyluso trosglwyddiad y plant iddi.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd y cynnydd y mae'r lleoliad yn ei wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol a fydd yn adrodd ei ganfyddiadau i Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Barn |
|---|---|

**Safonau: Barn**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, y safonau yn natblygiad eu medrau a'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Barn**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio hir dymor yn seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd yn effeithiol i ddarparu gweithgareddau diddorol sy'n rhoi sylw da i'r medrau penodol i'w datblygu yn yr ardaloedd dysgu o amgylch yr ystafell. Darperir gweithgareddau o safon uchel i'r plant i ddatblygu eu medrau lythrennedd, rhifedd, corfforol a chreadigol. Ni roddir sylw digon bwriadus i hybu datblygiad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r cynllunio ar gyfer y gweithgareddau ffocws dan arweiniad oedolion yn dda. Ar y cyfan, nid oes cydbwysedd digonol rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plentyn a gweithgareddau wedi'u cyfeirio gan ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn yng ngwaith dyddiol y cylch i ddatblygu hunan hyder yr holl blant. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd effeithiol i ddatblygu parch at ei gilydd; i ffurfio perthynas dda â'i gilydd ac oedolion; ac i fod yn oddefgar o'i gilydd.

Mae'r ddarpariaeth dda a wneir i'r plant ddysgu'r iaith Gymraeg, yn cynnwys ymwneud â llyfrau stori amrywiol, canu amrediad eang o ganeuon a gweithgareddau ymarferol ar thema'r tywydd.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru ac ar godi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill trwy chwarae rôl a llyfrau amrywiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad plant ac maent yn darparu profiadau dysgu priodol i ennyn eu diddordeb. Maent yn defnyddio ystod briodol o ddulliau ac adnoddau addas i gynorthwyo'r addysgu. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm i gynnig cefnogaeth gyson i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n dda gyda'r plant yn ystod sesiynau stori a gwaith grŵp. Maent yn defnyddio iaith bwrpasol a chwestiynu treiddgar. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn dda iawn
.
Mae'r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda. Maent yn arsylwi arnynt yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn eu harwain i gam nesaf eu datblygiad yn gelfydd. Serch hynny, nid yw eu harfer o gofnodi datblygiadau arwyddocaol yn ddigon cyson i greu darlun cyflawn o gynnydd y plant.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n gyson am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a threfnus. Mae'r trefniadau sefydlu ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni/gofalwyr yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n dda. Mae perthynas gynhaliol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant ac mae'r disgwyliad i blant ymddwyn yn gyfrifol wedi ei sefydlu'n gadarn. Maent yn hapus yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r oedolion.

Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn cael eu gweithredu'n dda. Darperir byrbrydau iach i bob plentyn yn ddyddiol.

Mae'r plant yn cael eu cymell i helpu ei gilydd ac mae "Helpwr y Dydd" yn cynnig cyfleoedd da i'r plant i gymryd cyfrifoldeb yn eu tro. Gosodir disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da.

Caiff anghenion y plant eu canfod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer. Cydweithir yn addas gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddiwallu unrhyw anghenion penodol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant.

Mae profiadau dysgu addas yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae amgylchedd dysgu'r lleoliad yn gynhwysol a chartrefol. Caiff yr holl blant gyfle cyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Rhoddir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth.

Mae gan y lleoliad nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Ar y cyfan, ceir cyflenwad digonol o adnoddau a chânt eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o ymweliadau ac o ymwelwyr o'r gymuned i ymestyn profiadau'r plant.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau priodol ar gyfer datblygiad corfforol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal tu allan ac ardal oddi ar y safle'n rheolaidd i ymestyn hyn ymhellach.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm er budd datblygiad y plant. Maent yn agored i syniadau newydd ac yn ymateb yn ddiymdroi ac effeithiol i gyngor.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn drefnus a chefnogol i'r lleoliad. Mae'r aelodau'n ymroddgar ac effeithiol wrth eu gwaith.

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'i hunan arfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunan arfarnu'n arwain at ganfod pethau i'w gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn.

Ymgynghora'r arweinydd â rhieni/gofalwyr ac ag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol i fwydo'r hunan arfarnu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir yn effeithiol i grynhoi barnau a chanfod meysydd i'w datblygu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn ddiymdroi ac effeithiol i gyngor ac, o'r herwydd, mae ansawdd y ddarpariaeth wedi datblygu'n sylweddol mewn amser byr.

Mae'r arweinydd a'r rheolwyr ynghyd â rhieni neu ofalwyr yn bwydo'r broses hunan arfarnu yn effeithiol. Mae'r arweinydd - gyda chefnogaeth athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol - yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i grynhoi barnau a chanfod meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn nodi'n glir y cryfderau a meysydd i'w gwella.
(Mae'r broses hunan arfarnu yn effeithiol o safbwynt canfod agweddau i'w gwella ac sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i'r holl blant.) ail-adrodd?

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r arweinydd a chadeirydd y Pwyllgor Rheoli yn cydweithio'n effeithiol er budd y plant i hyrwyddo parhad a datblygiad y lleoliad. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda iawn ac mae eu cefnogaeth i'r lleoliad yn gadarn.

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol a swyddog y Mudiad Meithrin. Mae'r partneriaethau hyn yn llwyddiannus ac yn fuddiol iawn o safbwynt sicrhau ansawdd addysg y plant sy'n mynychu'r lleoliad.

Nid yw'r bartneriaeth rhwng y Cylch a'r ysgol gynradd leol yn ddigon cydlynus o ran hwyluso trosglwyddiad y plant a chysoni arferion. Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant trwy drefnu ymweliadau amrywiol.

## Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o gryfderau'r ymarferwyr er budd addysg y plant. Nid yw'r broses o reoli perfformiad i werthuso ymarferwyr ac i adnabod anghenion hyfforddiant wedi ei ffurfioli'n ddigonol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli adnoddau yn dda ac mae'r rhieni yn gweithio'n ddygn i ychwanegu at y cyflenwad. Mae ymarferwyr a rheolwyr yn cydweithio'n effeithiol i flaenoriaethu adnoddau i'w prynu, i wella'r cyfleusterau storio ac i sicrhau tymheredd cyson yn y neuadd. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd pump o holiaduron gan rieni neu ofalwyr a mynegwyd barnau cadarnhaol iawn am y ddarpariaeth. Teimla'r rhieni bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn mwynhau mynychu' r lleoliad. Credant fod eu plant yn ddiogel iawn ac yn ymddwyn yn dda yno. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n dda yn eu cwmni. Maent o'r farn bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

**Ymateb i drafodaethau gyda'r plant**

Roedd bron bob plentyn yn gyfforddus wrth siarad ag ymwelwyr a dywedant eu bod yn hapus iawn yn y cylch. Ymunant yn frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn barod iawn i sgwrsio am eu hoff weithgareddau ac am eu ffrindiau.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu / yr arolygydd cofnodol – dileer fel y bo’n briodol**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)